

Myfyrdodau Byrion ar Ferched yr Hen Destament: Seffora a Miriam

Seffora

Exodus 2: 21-22; 4:24-26; 18:1-5



Ym myd y Beibl mae arwyddocâd arbennig i'r rhif saith. Os oedd gan ddyn saith o feibion - gwyn ei fyd (e.e. Ruth 4:15 a 1 Samuel 2:5). Os oedd ganddo saith o ferched - druan ohono! Hwyr neu hwyrach buasai rhaid hel pres ac eiddo am saith gwaddol. Efallai bod hynny'n egluro pam yr oedd Jethro mor awyddus i groesawu Moses: "*Ple mae'r dyn? Pam yr ydych wedi ei adael ar ôl?*" (Exodus 2:20). Beth bynnag, Seffora dynnodd lygad Moses. Yn y man ganwyd Gersom ac Elieser. (*Llun: The Marraige of Moses And Sefhora* (1685) gan Charles le Brun (1619-1690))

Wedi'r alwad fawr, yn gyndyn

braidd, cymerodd Moses ei wraig a'i deulu a chychwyn yn ôl i'r Aiff. Ar y daith fe ddigwyddodd rhywbeth hollol syfrdanol; brawychus ac erchyll i fod yn blwmp ac yn blaen! Ychydig adnodau moel yn magu llu dirifedi o gwestiynau - pam mae Duw yn ceisio lladd Moses? Pam mae Seffora yn torri blaengroen ei mab a'i fwrw i gyffwrdd â thraed Moses? Beth yw ystyr geiriau Seffora: "*Yr wyt yn briod imi trwy waed?*" (Exodus 4: 25) Wn i ddim! Mae yna rym ar waith fan yma sydd y tu hwnt i'n deall, 'does dim eglurhad. Marwolaeth yn ymweld â theulu Moses liw nos: tywallt gwaed, defod dywyll a geiriau dirgel yn troi'r bygythiad i ffwrdd. Cymaint â hyn sydd amlwg - oni bai am fenter Seffora, buasai Moses wedi marw'r noson ryfedd honno.

Nid dyma'r tro olaf inni gyfarfod â Seffora. Dywed awdur Exodus wrthym yn hamddenol braf fod Moses wedi danfon Seffora a'r ddau fab yn ôl at Jethro ... does dim esboniad. Mae'r teulu yn dod at ei gilydd eto wrth droed Sinai (Exodus 18:5). Yn ôl pob tebyg fe dreuliodd Seffora weddill ei hoes gyda Moses. Ni chawn ragor o fanylion; 'rydym wedi dysgu peidio disgwyl manylion felly gan awdur Exodus! Eto, fe lwyddodd i lapio dirgelwch a rhyfeddod yn dynn amdani. Ni allwn ond dyfalu'r gwir am Seffora, gwraig Moses.

Diolch i Ti, ein Duw, am fod lle i'r amlwg a'r distadl yn dy waith di. Amen

Miriam

Exodus 2:4-8; 15:20-21; Numeri 12: 1-2, 9-10; 20:1



Cawn gwrdd â Miriam am y tro cyntaf, yn ferch tua saith mlwydd oed, yn cuddio yng nghanol yr hesg tal wrth ymyl Afon Nil. (*Llun: Miriam and Moses* gan Paul Delaroche (1797 – 1856) o *Women in Sacred History* gan Harriet Beecher Stowe (1811 - 1896). *Cyh: J.B. Ford and Company 1873.*) Mae ei brawd bychan newydd-anedig yn sgrechian a strancio ym mreichiau anghyfarwydd un o ferched Pharo. Camodd Miriam allan o'i chuddfan. Yn hyf, meddai wrth y dywysoges, “*Bydd angen nyrs i'r baban, dw i'n adnabod yr union berson i chi.*” Rhuthrodd Miriam adref i nôl ei mam. Byddai Moses, heb yn wybod iddo, yn ddiogel yng ngofal ei fam iawn; oherwydd hyfdra merch fach.

Mae'r bobl wedi croesi'r Môr Coch, wedi dianc o'r Aifft a'i boen. Ni allai Miriam lai na chanu. Cydiodd mewn tympan ac arwain y ddawns a'r mawl i Dduw - dyma awr fawr Miriam! Ond, ychydig yn ddiweddarach, fe ddaw tro ar fyd. Mae Miriam yn siarad allan yn erbyn Moses. Cawn weld ochr arall

iddi nawr: chwerwder a chenfigen. ‘Roedd Miriam yn anhapus oherwydd ar ôl i Seffora farw, fe briododd Moses â gwraig o Ethiopia. Ymuna Aaron gyda Miriam mewn cytgan o rwgnach. Maent yn prysur danseilio awdurdod Moses. Mae Miriam yn cael ei chosbi: y gwahanglwyf yn troi ei chroen yn wyn.

Moses sydd yn erfyn ar Dduw i'w hiachau. Wedi gwella, mae Miriam yn cael ei chau allan o'r gweryll am wythnos. Ni fedr ei phobl deithio hyd nes iddi ddychwelyd i'w plith. Mae ei chosb, felly, i raddau, yn gosb i'r holl bobl.

Bu farw Miriam yn Cades. Fel ei brodyr, Aaron a Moses, ni welodd Wlad yr Addewid. Er gwaethaf ei gwendidau, mae ei chân o lawenydd, ei dathliad o ryddid yn atseinio hyd heddiw ym mhrofiad ei phobl.

Dal ni'n agos atat, ein Duw, pan fo pob math o ddylanwadau dinistriol ar waith arnom ac ynom. Amen